

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
Answers to Questions not reached in Plenary
24/09/2008

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys
Contents

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig
Questions to the Minister for Rural affairs
- 2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai
Questions to the Minister for Environment, Sustainability and Housing

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig
Questions to the Minister for Rural affairs

Amlinellu Blaenoriaethau

Outlining Priorities

C13 Paul Davies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer y chwe mis nesaf? OAQ(3)0436(RAF)

Q13 Paul Davies: Will the Minister make a statement outlining her priorities for the next six months? OAQ(3)0436(RAF)

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones): Yr wyf yn parhau'n ymrwymedig i gyflawni amcanion cytundeb 'Cymru'n Un' a gweithio i ddarparu diwydiannau ffermio, coedwigaeth, bwyd a physgodfeydd cynaliadwy er lles Cymru a'i chymunedau gwledig.

The Minister for Rural affairs (Elin Jones): I remain committed to delivering the objectives set out in the 'One Wales' agreement and to working to deliver sustainable farming, forestry, food and fisheries industries to the benefit of Wales and rural communities.

Priorities

Blaenoriaethau

Q14 Nick Ramsay: Will the Minister make a statement on her priorities for the next six months? OAQ(3)0402(RAF)

C14 Nick Ramsay: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau ar gyfer y chwe mis nesaf? OAQ(3)0402(RAF)

Elin Jones: I remain committed to delivering the objectives set out in the 'One Wales' agreement and to working to deliver sustainable farming, forestry, food and fisheries industries to the benefit of Wales and rural communities.

Elin Jones: Yr wyf yn parhau'n ymrwymedig i gyflawni amcanion cytundeb 'Cymru'n Un' a gweithio i ddarparu diwydiannau ffermio, coedwigaeth, bwyd a physgodfeydd cynaliadwy er lles Cymru a'i chymunedau gwledig.

Diversifying Farm Activities

Arallgyfeirio Gweithgareddau Fferm

Q15 Peter Black: Will the Minister make a statement on what support she is giving to farmers to diversify farm activities?

C15 Peter Black: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gefnogaeth y mae hi'n ei rhoi i ffermwyr er mwyn arallgyfeirio

OAQ(3)0424(RAF)

Elin Jones: The new Farming Connect service funded under the rural development plan, which I launched earlier this year, provides a support mechanism to advise on diversification options, improve business viability and access new markets. Taking advantage of market trends and consumer demand are key to maintaining successful farm enterprises, which Farming Connect aims to promote.

gweithgareddau fferm? OAQ(3)0424(RAF)

Elin Jones: Mae Cyswllt Ffermio a lansiais yn gynharach eleni yn wasanaeth sy'n cael ei noddi o dan y cynllun datblygu gwledig. Mae'n cynnig cyngor ar arallgyfeirio, ar sut i wneud busnesau'n fwy hyfyw a sut i gipio marchnadoedd newydd. Amcan Cyswllt Ffermio yw helpu busnesau fferm i gynnal eu llwyddiant, ac mae ymateb i'r galw a manteisio ar dueddiadau'r farchnad yn ganolog i hynny.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai Questions to the Minister for Environment, Sustainability and Housing

Landfill

Q9 Lorraine Barrett: What is the Welsh Assembly Government doing to reduce the amount of waste sent to landfill?
OAQ(3)0529(ESH)

The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson): We are helping local authorities to increase recycling and procure waste treatment plant. In 2007/08 they sent 680,912 tonnes of biodegradable waste to landfill compared with their allowance of 866,000 tonnes. Collectively, Wales has hit its 2010 target two years early, though individual local authorities have to hit the target too.

Amddiffynfeydd Llifogydd

C10 David Lloyd: Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch cyllid ychwanegol i gryfhau amddiffynfeydd rhag llifogydd?
OAQ(3)0516(ESH)

Jane Davidson: Mae cyllido amddiffynfeydd rhag llifogydd yn fater datganoledig. Yr wyf wedi neilltuo dros £37 miliwn eleni ar gyfer rheoli'r perygl o lifogydd. Dyna gynnydd o 50 y cant i Asiantaeth yr Amgylchedd a'r awdurdodau lleol fel ei gilydd ers 2002.

Tlodi Tanwydd

C11 David Lloyd: Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynglŷn ag effaith y cynnydd mewn

Tirlenwi

C9 Lorraine Barrett: Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i leihau faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi?
OAQ(3)0529(ESH)

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson): Yr ydym wrthi'n helpu awdurdodau lleol i ailgylchu fwy ac i brynu offer trin gwastraff. Yn 2007/08, gwnaethant anfon 680,912 tonnelli o wastraff pydradwy i safleoedd tirlenwi o'i gymharu â'u lwfans o 866,000 tonnelli. Gyda'i gilydd, mae Cymru wedi taro targed 2010 ddwy flynedd yn gynnar er nad yw pob awdurdod wedi taro'i darged eto.

Flood Defences

Q10 David Lloyd: What discussions has the Minister had with the UK Government regarding additional funding to bolster flood defences?
OAQ(3)0516(ESH)

Jane Davidson: The funding for flood defences is a devolved matter. I have made over £37 million available for flood risk management this year. That represents a 50 per cent increase to the Environment Agency and to local authorities since 2002.

Fuel Poverty

Q11 David Lloyd: What discussions has the Minister had with the UK Government regarding the impact of rising energy prices

prisiau ynni ar dlodi tanwydd yng Nghymru?
O AQ(3)0517(ESH)

Jane Davidson: Esboniais yn glir yng nghyfarfod Gweinidogion y DU ar dlodi tanwydd ym mis Gorffennaf beth yw effaith y cynnydd yn y prisiau ar dlodi tanwydd yng Nghymru, ac yr wyf wedi bod yn ategu hynny yn fy nghyfarfodydd â chyflenwyr ynni.

Renewable Energy

Q12 Irene James: Will the Minister make a statement on what the Welsh Assembly Government is doing to promote and develop more renewable sources of energy?
O AQ(3)0499(ESH)

Jane Davidson: Welsh Assembly Government policy for the whole of Wales was laid out for consultation in the renewable energy route map in February of this year. The route map outlined that Wales could generate more electricity than it uses within 20 years by harnessing our natural resources.

Recycling

Q13 Nick Ramsay: Will the Minister make a statement on her policies for promoting recycling?
O AQ(3)0481(ESH)

Jane Davidson: The Assembly Government's current policies on recycling are set out in 'Wise About Waste'. The Assembly Government has proposed an ambitious new recycling target for local authorities of 70 per cent by 2025. That will be achieved by high quality recycling services, increasing public awareness and participation and reducing waste.

Planning Applications

Q14 Mick Bates: What assessment has the Minister made of the length of time given to local authorities to determine planning applications?
O AQ(3)0512(ESH)

Jane Davidson: Each local planning authority is expected to decide planning applications in eight weeks. It may take longer for larger or more complex

on fuel poverty in Wales?
O AQ(3)0517(ESH)

Jane Davidson: I made clear at the UK fuel poverty inter-governmental ministerial meeting in July the effect rising prices were having on fuel poverty in Wales, and I continue to emphasise the impact at the meetings that I have been holding with energy suppliers.

Ynni Adnewyddadwy

C12 Irene James: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i hyrwyddo a datblygu rhagor o ffynonellau o ynni adnewyddadwy?
O AQ(3)0499(ESH)

Jane Davidson: Cafodd polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cymru gyfan ei gosod allan at ddiben ymgynghori yn y trywydd ynni adnewyddadwy ym mis Chwefror eleni. Yn ôl y trywydd, drwy harneisio'n hadnoddau naturiol, gallai Cymru gynhyrchu mwy o drydan nag y bydd yn ei ddefnyddio ymhen 20 mlynedd.

Ailgylchu

C13 Nick Ramsay: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei pholisïau ar gyfer hybu ailgylchu?
O AQ(3)0481(ESH)

Jane Davidson: Mae polisïau Llywodraeth y Cynulliad ar ailgylchu i'w gweld yn 'Yn Gall Gyda Gwastraff'. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi argymhell targed ailgylchu uchelgeisiol o 70 y cant i awdurdodau lleol ar gyfer 2025. Llwyddir i'w daro drwy wasanaethau ailgylchu o'r radd flaenaf, codi ymwybyddiaeth y cyhoedd, cyfranogaeth y cyhoedd a chynhyrchu llai o wastraff.

Ceisiadau Cynllunio

C14 Mick Bates: Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r cyfnod a roddir i awdurdodau lleol ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio?
O AQ(3)0512(ESH)

Jane Davidson: Disgwylir i bob awdurdod cynllunio lleol benderfynu ar geisiadau cynllunio mewn wyth wythnos. Bydd angen mwy o amser ar geisiadau mwy neu

applications. If an authority cannot reach a decision in eight weeks, it should obtain the applicant's consent to extend that period. If it does not do so, the applicant may appeal against non-determination to the Welsh Ministers.

The Materials Action Programme

Q15 Mick Bates: Will the Minister make a statement on the materials action programme? OAQ(3)0496(ESH)

Jane Davidson: The materials action programme (MAP) tackled the 17 million tonnes per annum of industrial, commercial, construction and demolition waste and helped provide markets for the £1.5 million of household waste. MAP ended on 31 March 2008. A new integrated specialist materials efficiency programme runs to 2010/11. It includes targeted free consultancy advice and strategic infrastructure development for business.

gymhlethach. Os na all awdudod ddyfarnu ar gais mewn wyth wythnos, dylai ofyn i'r ceisydd am ei ganiatâd i ymestyn y cyfnod. Pe na bai'n gwneud, caiff y ceisydd apelio yn erbyn y diffyg penderfyniad i Weinidogion Cymru.

Y Rhaglen Weithredu ar Ddeunydd

C15 Mick Bates: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y rhaglen weithredu ar ddeunydd? OAQ(3)0496(ESH)

Jane Davidson: Aeth y rhaglen weithredu ar ddeunydd (MAP) i'r afael ag 17 miliwn tonnell y flwyddyn o wastraff diwydiannol, masnachol, adeiladu a dymchwel a helpu i ddarparu marchnad ar gyfer £1.5 miliwn o wastraff domestig. Daeth MAP i ben ar 31 Mawrth 2008. Bydd y rhaglen arbenigol integredig newydd ar effeithiolrwydd deunyddiau yn para tan 2010/11. Mae'n cynnwys cyngor di-dâl wedi'i dargedu gan ymgynghorydd a help strategol i fusnesau ddatblygu seilwaith.